HCTB1(PCA) Nodiadau W
04/11

Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen gais ar gyfer Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Ynglŷn â'r ffurflen hon

Rydym wedi darparu ffurflen amgaeedig i chi ar ran eich cyngor lleol. Cynhyrchir y ffurflen a'r nodiadau hyn yn genedlaethol. Cynlluniwyd y ffurflen hon i fod yn ffurflen sy'n sydyn ac yn hawdd i'w chwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n gwneud cais am Gredyd Pensiwn. Weithiau efallai y bydd angen i chi gwblhau ffurflen arall hefyd, er enghraifft pan fyddwch yn talu rhent i landlord preifat neu pan fydd pobl eraill yn byw gyda chi neu'ch partner.

Ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Gall Budd-dal Tai dalu eich rhent i gyd neu ran ohono. Gall hefyd roi rhywfaint o arian ychwanegol i chi tuag at bethau y mae'n rhaid i chi dalu amdanynt, fel glanhau rhannau o'r adeilad rydych yn eu rhannu ag eraill. Gall Budd-dal Treth Cyngor dalu am eich Treth Cyngor i gyd neu ran ohono. Ni all helpu â chostau dŵr, neu os ydych yn byw yn yr Alban, costau dŵr a charthffosiaeth Awdurdod Dŵr yr Alban

Ad-daliad Ail Oedolyn

Budd-dal Treth Cyngor yw Ad-daliad Ail Oedolyn ar gyfer pobl sydd o bosibl heb bartner ond sy'n rhannu eu cartref â rhywun:

- sydd yn 18 oed neu drosodd
- sydd ar incwm isel, a
- nad yw'n talu rhent iddynt.

Os ydych yn gwneud cais am Ad-daliad Ail Oedolyn bydd hefyd angen i chi gwblhau'r ffurflen atodol HCTB1(PC)ND.

Prawf

Mae'n bosibl y bydd eich cyngor lleol angen gweld prawf o bwy ydych a'ch Rhif Yswiriant Gwladol. Efallai y bydd angen gweld prawf arall, yn cynnwys prawf y gofynnir amdano ar unrhyw ffurflenni eraill sydd angen i chi eu cwblhau. Os nad ydych yn siŵr os oes angen i'ch cyngor weld prawf o rywbeth, cysylltwch â hwy. Byddant yn nodi'r hyn y mae angen iddynt ei weld. Ni allant dalu'r budd-dal i chi nes iddynt weld y prawf angenrheidiol.

Cwblhau'r ffurflen

Defnyddiwch inc du i gwblhau'r ffurflen. Peidiwch â defnyddio pensil. Os bydd y ffurflen gyfan neu ran ohoni wedi cael ei chwblhau drosoch, bydd angen i chi wneud yn siŵr ei bod wedi cael ei chwblhau'n gywir, os nad ydyw dylech gywiro unrhyw gamgymeriadau a llofnodi'r ffurflen. Os bydd camgymeriad ar y ffurflen, rhowch groes trwyddo a rhowch yr ateb cywir wrth ei ymyl. Peidiwch â defnyddio hylif na thâp cywiro.

Atebwch gwestiynau Na neu Ydw ac ati drwy roi tic yn y blwch priodol. Os ydych yn dewis ateb o restr o atebion, ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi. Peidiwch â rhoi croes mewn unrhyw flwch. Os byddwch yn ateb cwestiwn gyda chroes, efallai y bydd rhaid i'ch cyngor lleol anfon y ffurflen yn ôl, a bydd hyn yn oedi'r cais.

Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen

Os bydd angen help arnoch, cysylltwch â'ch cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad yn y llyfr ffôn o dan enw'r **Cyngor**, neu yn **mycouncil.direct.gov.uk**

Neu gallwch gysylltu â sefydliad fel eich Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol. Gallwch ddod o hyd i'w rhif ffôn a'u cyfeiriad yn adran rhifau busnes eich llyfr ffôn lleol.

Beth i'w wneud nesaf

Pan fydd y ffurflen wedi'i chwblhau, llofnodwch hi a'i hanfon i'ch cyngor lleol gydag unrhyw ffurflenni eraill a'r prawf sydd ei angen arnynt. Neu gallwch fynd â'r ffurflen a'r prawf i swyddfa budd-daliadau agosaf eich cyngor. Peidiwch ag anfon eitemau gwerthfawr fel llyfrau banc neu basbortau yn y post. Ewch â hwy i swyddfa budd-daliadau agosaf eich cyngor a byddant yn cymryd y wybodaeth angenrheidiol a'u rhoi yn ôl i chi. Os na allwch fynd i swyddfa budd-daliadau agosaf eich cyngor, ffoniwch y swyddfa a byddant yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf.

Os na allwch gyflwyno'r prawf angenrheidiol yn syth, peidiwch â phoeni. Anfonwch y ffurflen iddynt gyda'r prawf sydd gennych a rhoi gwybod iddynt y byddwch yn anfon mwy o brawf yn ddiweddarach. Os na fyddwch yn anfon y ffurflen yn syth, gallech golli arian.

Sut mae'ch cyngor lleol yn casglu gwybodaeth a'i defnyddio

Bydd eich cyngor lleol yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon, ac mewn unrhyw brawf a anfonwch, i brosesu eich cais ar gyfer Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Efallai y byddant yn trosglwyddo'r wybodaeth i asiantaethau neu sefydliadau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid & Thollau EM, yn unol â'r gyfraith.

Gallent wirio'r wybodaeth rydych wedi ei rhoi, neu wybodaeth amdanoch chi y mae rhywun arall wedi'i rhoi, gyda gwybodaeth arall sydd ganddynt. Gallent hefyd gael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti penodol, neu roi gwybodaeth iddynt i:

- wneud yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod trosedd, ac
- amddiffyn arian cyhoeddus.

Mae'r trydydd partïon hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill a sefydliadau'r sector preifat fel banciau a sefydliadau a allai roi benthyg arian i chi.

Ni fyddant yn rhoi gwybodaeth amdanoch i unrhyw un arall, neu'n defnyddio gwybodaeth amdanoch at ddibenion eraill, oni fydd y gyfraith yn caniatáu hynny.

Eich cyngor lleol yw'r rheolydd data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data.

Os ydych eisiau dod i wybod mwy am ba wybodaeth sydd ganddynt amdanoch, neu sut y defnyddir y wybodaeth honno, gofynnwch iddynt.

Newidiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol amdanynt

Er enghraifft:

- rhywun yn symud i mewn neu allan o'ch cartref, gan gynnwys lletywyr ac is denantiaid
- newidiadau yn eich incwm neu yn incwm unrhyw un sy'n byw gyda chi, gan gynnwys budd-daliadau
- newidiadau i'ch cyfalaf neu gynilion
- os byddwch chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi'n mynd yn fyfyriwr, yn mynd ar Gynllun Hyfforddi, yn mynd i'r ysbyty neu i gartref preswyl, yn mynd i'r carchar, neu'n newid neu'n gadael swydd
- os bydd eich rhent yn newid
- symud cartref
- os byddwch chi neu eich partner yn mynd i fod oddi cartref am fwy na mis
- os byddwch chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi'n dechrau gweithio
- os byddwch yn derbyn unrhyw benderfyniad gan y Swyddfa Gartref, neu
- unrhyw beth rydych wedi ei ddweud wrthym am newidiadau.

Nid yw hon yn rhestr lawn. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch cyngor am gyngor. Mae'n rhaid i chi roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau ar bapur – nid yw galwad ffôn yn ddigon. Os na ddywedwch am unrhyw newidiadau gallech golli'r arian y mae hawl gennych i'w gael neu gallwch gael gormod o fudd-dal. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn dweud wrthynt am unrhyw newidiadau'n syth.

Peidiwch â dibynnu ar rywun arall i drosglwyddo'r neges.

Mae'n drosedd i beidio â dweud wrth eich cyngor am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich budd-dal. Gallent ddwyn achos llys yn eich erbyn ac os byddant yn talu gormod o fudd-dal i chi, mae'n debygol y bydd rhaid i chi ei dalu'n ôl.